- Mae safon uchel o wybodaeth i fenywod a theuluoedd ar hysbysfyrddau wedi'u cynllunio'n dda iawn. Yn benodol, mae pwyslais ar leddfu poen, ystum y corff a'r acronym ar gyfer annog esgor arferol yng Nghanolfan Enedigaeth y Trallwng.
- Mae gwybodaeth dda yn cael ei harddangos ynghylch goruchwyliaeth, ac mae'n dda gweld meysydd o ddiddordeb ar gyfer pob Goruchwylydd Bydwragedd.
- Roedd y sioe deithiol addysg cyn-geni yn ddigwyddiad llawn gwybodaeth ac yn denu llawer o bobl, ac roedd mamau yn ei gael yn ddefnyddiol iawn.
- Roedd bydwragedd yn cael llawer o gefnogaeth a gwybodaeth, gyda mynediad clir i bolisïau, ac roeddynt yn defnyddio Goruchwylwyr Bydwragedd lleol yn dda.

**Meysydd i'w gwella**

- Fel mater o flaenoriaeth, mae angen gwella Canolfan Enedigaeth Llandrindod i'w gwneud yn amgylchedd diogel, modern a hawdd ei ddefnyddio. Mae'r cyfleusterau ac amgylchedd geni yn Llandrindod yn annigonol mewn cyfnod pan mae menywod mewn ardaloedd eraill yn cael mynediad i Unedau Mamolaeth pwrpasol sy'n cynnig, o dan arweiniad bydwragedd, darpariaeth lawn o ofal diogel a phreifat mewn amgylchedd cynnes a chroesawgar.
- Dylid dangos sut y mae Goruchwylwyr Bydwragedd ym Mhowys yn dylanwadu ar newidiadau mewn gwasanaethau, gwelliannau mewn amgylcheddau, a gofal.
- Goruchwylwyr Bydwragedd i ddylanwadu ar argaeledd cyfleusterau geni dŵr ym mhob Canolfan Eni ym Mhowys.

**Chwarter 3 Canolfan Enedigaeth Aberhonddu** fel rhan o ymweliad archwilio'r AGLI

**Arfer Da**

- Dyfarnwyd gwobr Rhagoriaeth wrth Gefnogi Dysgu mewn Ymarfer Proffesiynol i fydwragedd Aberhonddu gan Brifysgol De Cymru oherwydd eu gwaith mentora a chefnogaeth i fydwragedd dan hyfforddiant.
- Mae safon uchel o wybodaeth i fenywod a theuluoedd ar hysbysfyrddau wedi'u cynllunio a'u cadw'n dda iawn.
- Roedd amgylchedd trefnus, glân, taclus a thawel, lle'r oedd staff yn dangos lefel uchel o broffesiynoldeb yn eu gwaith a bod eu hymagwedd tuag at fenywod yn dda.
- Roedd y staff y bu'r tîm AGLI yn siarad â hwy yn y man clinigol yn wybodus am weithdrefnau'r ward, cael gafael ar bolisïau, a'r ffordd i gysylltu â Goruchwylydd Bydwragedd.

**Meysydd ar gyfer datblygiad parhaus ar ôl ymweliad archwilio'r AGLI**

- Goruchwylwyr Bydwragedd i barhau i fynychu cyfarfodydd mewn Ysbytai Cyffredinol Dosbarth cyfagos. Darparodd Swyddog Bydwreigiaeth yr AGLI restr o'r cyfarfodydd sydd i ddod.
- Goruchwylwyr Bydwragedd a bydwragedd i barhau i elwa ar gyfleoedd allanol a grëwyd gan gysylltiadau ag Ysbytai Cyffredinol Dosbarth cyfagos.

| | | |
|---|---|---|
| **9** | 1500 | Adborth i'r Pennaeth Bydwreigiaeth a Goruchwylwyr Bydwragedd, gan gynnwys crynodeb o'r diwrnod a'r camau nesaf |

## Atodiad B

**Rhestr o Gyfranogwyr y broses Archwilio Blynyddol – Bwrdd Iechyd Powys**

**Cyfarwyddwr Nyrsio** – Carol Shilabeer

**Pennaeth Bydwreigiaeth** – Cate Langley

**Uwch Reolwr Bydwreigiaeth / Goruchwylydd Bydwragedd Cyswllt** – Dawn Davies

**Cydlynydd Risgiau / Uwch Reolwr Bydwreigiaeth / Goruchwylydd Bydwragedd** – Donna Owen

**Aelodau o'r tîm Goruchwylwyr Bydwragedd** – Sara McAleese

**Cymorth ysgrifenyddol i'r Goruchwylwyr Bydwragedd** – Emma Carmichael

**Wedi'u cyfarfod gan Dîm yr AGLI**

Bydwragedd o bob rhan o'r ganolfan eni yn Aberhonddu

Bydwraig dan hyfforddiant yng Nghanolfan Enedigaeth Aberhonddu

**Ymddiheuriadau:**

Dim yn hysbys